

HIRAETH

Cerddi i Miranda Whall

‘Cannwyll ar Draethell Unig’

Innis Leacain

Yn yr Yukon

Yn y Sahara

Ponterwyd

Y Gwair Hir

Sgybwch E i Gyd o’r Neilltu

Salwch Yw E

Tŷ’r Arglwydd

Carchar Hiraeth

Mynyddoedd Dy Wlad

Aros yng Nghefn Gwlad

'Cannwyll ar Draethell Unig'

Darllenais gerdd yn rhywle'n sôn am dŷ
Yr ochor bella' i ryw aber trist.
Roedd hi'n nosi, ac roedd y tŷ yn dywyll,
Ond mwya' sydyn dyna olau bach
Yn un o'r ffenestri'n gwahodd yn y gwyll.
Ond doedd dim modd i neb fynd at y tŷ,
A'r aber yn llenwi hefyd fel yr awyr.
Rwy'n cofio'r llinell 'Cannwyll ar draethell unig':
Peth felly ydi hiraeth, ddywedwn i.

Innis Leacain

Mae arna'i hiraeth am le
Oedd yn harddach na'm cartre,
Lle byddai cwch
Yn mynd â ni i ynys fach
Yn y môr yng Nghonnemara.

A 'Nhad bob tro yn rhoi gwaedd
Hanner milltir cyn cyrraedd,
A'n taflu o'r cwch,
A ninnau bob tro yn nofio'n iach
I'r lan ar ei ôl yn ara'.

Â'm cefn wrth wal gerrig y tŷ
A llanw'r môr yn dynesu
Yn nŷwch y nos,
Doedd arna'i ofn na bwgan na gwraich;
Hiraethwn am iddi bara...

Yn yr Yukon

Mi fûm i yn yr Yukon,
Yn y parthau oera' sydd;
Am bum mis roedd hi yno'n
Hanner nos drwy'r dydd.
Ac roedd hiraeth yn fy nghalon
Am gael fy nhraed yn rhydd.

I un fel fi, wedi tyfu lle'r oedd afonydd
A môr yn llifo, a brigau yn aflonydd,
A gwynt yn gwasgaru brain ar hyd y bronnydd;
I un fel fi, fu'n rhedeg hyd y traeth,
Roedd gaea'r Yukon mor gaeth, mor gaeth.

Yr awen wedi rhewi,
Fel y cwrw yn y can,
Mynd i siarad dwli
Fel pobol hanner pan,
Ond cadw'r stôf i losgi
A dal ein dwylo lan...

Yna un bore o wanwyn, fe dorrion ni mâs,
Bwrw traffordd Alaska, a mynd ar ras
Tua'r môr a'r ynysoedd, nes clywed blas
Yr heli ar ein gwefuse; a gweles i'r lli
Yn dawnsio 'da'r harbwr, a llefes i...

Yn y Sahara

Un o Langeitho wyf i,
A sa'i'n hiraethwr mawr;
Dyw'r sawl sy'n edrych 'nôl o hyd
Yn dda i ddim byd *nawr*.
Ond pan o'n i yn blentyn
(Am fy mod i'n blentyn da)
Fe ges i fynd gyda 'Mam a 'Nhad
I fyw i Affrica.

O dan haul y Sahara
Cynefino wnes
Â gweld cysgodion dynion
Yn toddi yn y gwres.
A doedd arnaf i mo'r hiraeth
Oedd ar fy Mam a 'Nhad,
Na syched am afonydd
Dyfroedd yr hen wlad.

Ond un tro, a minnau'n chwarae
Yn yr haul o flaen y tŷ,
Fe aeth yn ddiffyg ar yr haul
Nes bod pob man yn ddu.
A mwya' sydyn aeth hi'n oer,
A Duw, roedd hynny'n braf!
A daeth hiraeth arnaf i
Am Gymru yn yr haf.

Ponterwyd

Mae hiraeth am ryw Gymraeg sy bron ar ben
Yn y Fuches Gau a'r Fuches Wen,

Ac am yr enwe fu ar gelfi ac arfe
Yn Nant Cae'r Rhedyn ac yn Erw Barfe,

A'r chwedle am Glyn-Dŵr ac Arthur Gawr
Yn Lle'r Neuadde ac yn y Fagwr Fawr.

A geirie hafaidd merch wrth dynnu'i chrys
Draw wrth Lynnoedd Ieuan neu Nant Rhys.

Wedi mynd y bydd y cwbul gyda hyn,
Fel yr aeth yr hen dyddynod gwyn

Ers llawer dydd o dan y coedydd cadarn
Ar y Peraidd Fynydd a Banc yr Adarn...

'You comin' up to Tom's Place later, then?'
Mae hiraeth am ryw Gymraeg sy bron ar ben.

Y Gwair Hir

Ganwyd fi yn Llan-saint yn Sir Gaerfyrddin.
Does arna' i ddim hiraeth am y pentre,
Nac am y bobol, chwaith, a dweud y gwir.

Hiraeth sy arna' i am y tir agored;
Hiraeth sy arna' i am y caeau a'r shetin,
Y caeau bach ymhobman a'r gwair hir.

A hiraeth am gael rhedeg, rhedeg, rhedeg
Drwy'r gwair hir, a gorwedd yn yr haul,
A chuddio rhag y byd o dan awyr las.

Dyna yw hiraeth i mi... Ond ymhen blynydde,
Pwy a wŷr am beth y bydd arna' i hiraeth
Bob tro y bydd y byd yn troi yn gas?

Sgubwch E i Gyd o'r Neilltu

Pawb â lle bach, welwch chi: hyn a hyn o aceri,
Ieir a mochyn a chath, a dwy neu dair buwch i gael llâth.
Gwybod sut i ddod i ben; tyfu pethe eu hunen;
Pawb drosto'i hunan yn y ffair, a gyda'i gilydd yn y gwair.

A ninne, blant y brynie, yn neidio dros y mydyle,
Ac yn tynnu'n tafode ar ein mame a'n tade
A Mam-gu a Tad-cu.... Sgubwch e i gyd o'r neilltu:
Does dim ar ôl ohono ond rhyw ddrabe yn y co'.

Ond dyma'r mynyddoedd, a dyma'r dyffrynnoedd,
Yr afonydd a'r rhaeadre, y clogwyni a'r creigie.
Ac yma y byddan nhw, pan fyddaf i wedi marw
A'r mydyle gwair a'r plant wedi mynd i Abergofiant.

Salwch Yw E

Salwch yw e, y tu hwnt i eirie.
Nid salwch y gallwch roi enw arno:
Maen gen i boen, Doctor, ond wn i ddim yn lle.

Methu angori fy hun, mae amser yn gam.
Dw i ddim yn y gorffennol, a does dim dyfodol.
Ond mae cwmwl y gorffennol o gwmpas y presennol.

Rown i'n ei deimlo fe weithie wrth gerdded lawr yr heol.
Absenoldeb oedd e bryd hynny fel petawn i
Yn colli fy neunydd, a'm celloedd yn gwacáu.

Cerdded i mewn i stafell mewn gwesty,
Rhyw le mae pobol yn trafaelu drwyddo,
Heb sefyll yno mwy na rhyw gwpwl o nosweithie;
Mae'r boblogaeth yn symud o hyd mewn a mâs, mewn a mâs.
Ac mae wastad olion y sawl oedd yno cynt.

Mae hynny'n fy hala i mewn i'r lle dwfwn –
Fel ysbryd yn fy enaid, yn y celloedd; gwacáu.

Tŷ'r Arglwydd

Pan es i gynta' i Lunden, do'n i 'rioed wedi rhoi fy mhen
I lawr ar yr un gwely ond hwinnw oedd yn yr hen dŷ
Fu'n gartre gwyn i'm teulu i ers y flwyddyn mil wyth naw tri!
Tra o'n i'n chwilio am lety, bŷm yn aros gyda theulu
Caredig, wir i chi, ond pobol hollol ddieithr i mi.

Ar fy noson gynta' i, fe es i'r stafell molchi,
A dyna lle bŷm i'n edrych arnaf fy hun yn y drych,
Ac fe lanwyd y stafell â llais fy modrybedd o bell:
"Fe wedon ni, fe wedon ni taw difaru y byddet ti!"
A phryd hynny'n iawn y penderfynais mai aros wnawn.

Peth felly oedd e bryd hynny, pan es i gynta' o'r hen dŷ;
Lwmp yn y gwddw, cyfog, a lle gwag yn y stumog.
Erbyn hyn mae e'n fwy; mae 'na hiraeth ofnadwy
Am gael mynd adre i dŷ gwynnach na chartre fy nheulu,
Lle caf roi 'mhen i lawr: mae hiraeth am dŷ'r Arglwydd nawr!

Carchar Hiraeth

Fedrwch chi ddim hiraethu am yr hyn sy i ddod:
Rhaid i hiraeth wrth atgofion...
Cofio am bobol, am le, cofio am sŵn.
Cofio am gwmni ci, am olygfa.
Cofio am gael mynd i gerdded fin nos o haf,
Wedi diwrnod hirfelyn tesog,
A phobman yn ddistaw, pobman yn ddistaw a llonydd,
A chael ein cofleidio gan y gwres...

‘Hiraeth mawr a hiraeth creulon sydd
Bob dydd yn torri ’nghalon...’ Nag yw!
Dyw e ddim gwerth ei gael os dyna mae’n wneud;
Hiraethwch am rywbeth sy’n peri gwên,
Hiraethwch am rywbeth sy’n werth ei gael yn ôl,
Achos carcharor ydych chi.
Dych chi ddim eisie bod yng ngharchar hiraeth
Os yw’r gwely yn oer ac yn galed...

Mynyddoedd Dy Wlad

Y tynnu'n y galon pan fydd Cymro mâs o'i wlad:
Galwodd rhywun e'n 'hiraeth' slawer dydd.
Ydyn nhw'n ei deimlo fe mewn gwledydd eraill?
Oes gyda nhw air amdano fe yn Affrica ?

Rwyf wedi teithio a gweithio 'mhob cwrr o Loeger,
A chwrddais i â llawer o ddynion gwybodus,
Dynion oedd yn deall llawer am y byd.
Ond sa'i'n cofio'r un Sais yn sôn am hiraeth.

Cofio un tro yn Llundan; o'n i'n gweithio yn Richmond,
Yng nghanol y byddigions, yn peintio tai.
Troi lan un bore yn fy ffedog wen
A chwrdd â dyn dierth, dyn o Libanus.

Un o Lunden ych chi? gofynnodd y dyn.
Nage ddim! meddwn inne. O Gymru rwy'n dod.
Fe glywais amdani, medde fynte wedyn;
Mae yno fynyddoedd fel rhai fy ngwlad inne.

Llefarodd hefyd am goed, am gedrwydd Libanus,
A'r isop sydd yn tyfu mâs o'r pared.
Ydi dy galon dithe'n brifo, gyfaill,
Wrth iti feddwl am fynyddoedd dy wlad?

Ydi! Ydi! A dyna'r unig dro
I mi gael sgwrs am hyn gyda neb yn Lloeger.
Anghofiais ofyn i'r dyn o Libanus
Beth oedd ei air e amdano fe.

Aros yng Nghefn Gwlad

Y stafell yn Ninas Mawddwy lle gorweddai 'Nhad:
Nid eith yr olygfa honno byth o'm co'.
Roedd o'n gorwedd yn union fel petai o'n cysgu,
Ac roedd arnaf awydd cyffwrdd ag o.

Cydiais yn ei fysedd; roedd bysedd fy Nhad
Yn fyr ac yn drwchus, yn debyg i ledr sych
Wedi'r gwaith y bu'n ei wneud ym mhob tywydd
Ers pan oedd o'n ddim o beth, a baw 'mhob rhych.
A phan es i oddi cartre'n llanc, gyda'i fendith o,
(Am fod digon yn fy mhen i basio arholiade)
Ychydig a wyddwn y down i yma'n ôl
Adre i weithio tir fy Nhad a'm Tade.

Bydd arnaf hiraeth weithie am yr hen griw hwyliog
Y bûm i'n jolichoetian efo nhw,
Ac yn meddwl am addewidion heb eu cywiro,
A breuddwydion wedi chwalu, ond ar fy llw,
Pan edrychaf i o Aran Fawddwy,
O ganol deg ar hugain o'm gwartheg du,
I lawr ar bont y Bermo, a thonne'r môr,
A draw ar Arennig, a'r holl diroedd sy
Yn cyrraedd i lethrau'r Wyddfa, ac wedyn troi
Fy nghefn ar y rheini i gyd, ac edrych draw
Tua Dyffryn Dyfi a Llandinam,
A Phen y Fan – a Lloegr rywle'n y glaw –
Adeg hynny, bydd arnaf hiraeth mwy;
Hiraeth am y diwydrwydd yn amser fy Nhad,
Ac mae'r golled sy'n cysylltu Cymry'r oesoedd,
Yn gadernid imi aros yng nghefn gwlad.

Peidiwch Gafel Mor Dynn!

Nid 'hiraeth' y bydden ni'n ddweud, ond 'chwant';
Fe ges ambell bwl pan o'n i'n byw bant...

Ond hiraeth i mi, wedi mynd i oed,
Yw cofio enwe'r blode a'r coed,
A'r adar a godai'n yr awyr iach
Ar y feidir lle cerddwn yn groten fach,
A gwybod bod fy wyrese i
Yn byw mewn byd cwbl wahanol i ni.

Yr un yn gwmws oedd bywyd y wlad
I mi ag oedd e i Mam a 'Nhad;
Pawb a'i dyddyn, a job arall, falle;
Pawb yn ymdopi yn ôl fel y galle.
Ac roedd gyda nhw ddawn i gyd-dynnu;
Roedd pawb yn siarad yr un iaith bryd hynny,

Rwy'n mynd â nhw weithie mâs i'r wlad,
Heibio i gartre fy mam a 'nhad,
Ac yno o hyd mae'r feidir fach
A'r adar yn codi'n yr awyr iach,
A phryd hynny bydd arna'i chwant
Rhannu â nhw beth oedd gyda ni'n blant...

Ond beth yn ni haws â meddwl fel hyn?
Mae popeth yn newid. Peidiwch gafel mor dynn!